
# Cant o ddefaid


www.lambsongs.co.nz Stori: Jill Kemp Cyf. Andy Hughes Lluniau: Richard gunther





**Dywedodd Iesu'r stori hon i ddangos inni faint mae Duw yn ein caru ni. Rwyt ti'n werthfawr iddo.**



**Adroddodd Iesu stori am fugail oedd â chant o ddefaid. Roedd yn caru ei ddefaid ac fe'u cadwodd yn ddiogel.**




**Bob dydd byddai'r bugail yn mynd â'i ddefaid i ddod o hyd i laswellt newydd i'w fwyta. Un diwrnod, aeth un oen bach i ffwrdd ar ei ben ei hun.**




**Y noson honno cyfrifodd y bugail ei holl ddefaid. Dim ond naw deg naw oedd yna! Roedd un oen ar goll.**




**Gadawodd y bugail ei naw deg naw o ddefaid ac aeth i chwilio am yr oen. Roedd yn caru ei oen bach, yn union fel Iesu yn caru ti!**



**Cerddodd y bugail yn bell, i fyny'r allt ac i lawr, i chwilio am yr oen bach oedd ar goll.**



**Roedd yr oen yn unig ac yn ofnus. “Baa, baaa,” gwaeddodd. Roedd yn ddrwg ganddo nad oedd wedi aros yn agos at y bugail, lle byddai'n ddiogel.**



**Clywodd y bugail yr oen bach. “Rwyf wedi dod o hyd i ti!” meddai. “Rydw i wedi bod yn edrych amdanat ti. Ti yw fy oen gwerthfawr.”**